# Cofnodion wedi'u Cadarnhau o Gyfarfod Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru a gynhaliwyd yn gyhoeddus ddydd Mawrth 21 Ionawr 2025

Yn Charnwood Court ac ar Microsoft Teams

CADARNHAWYD

**Aelodau:**

| | | |
|---|---|---|
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (rhan o'r cyfarfod 10:40 – 12:00) |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Yn y Lleoliad) |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Yn y Lleoliad) |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd y CBC, GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| | (AW) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Gweithredol a Chomisiynu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

**Aelod Cyswllt:**

| | | |
|---|---|---|
| Stacey Taylor | (ST) | Prif Gomisiynydd Dros Dro, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |

**Eraill yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Shaun Ayres | (SA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Gweithredol a Chomisiynu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Jacob Barge | (JB) | Claf (Rhan o'r cyfarfod – ar gyfer Stori Claf yn unig) |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Pontio a Thrawsnewid CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Claire Harding | (CH) | Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Gwen Kohler | (GK) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, CBC GIG Cymru |
| Jacqui Maunder | (JM) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, CBC GIG Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Shane Mills | (SM) | Cyfarwyddwr Comisiynu ac Iechyd Meddwl, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Rachel Marsh | (RM) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais (Yn y Lleoliad) |
| Helen Tyler | (HT) | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol, CBC GIG Cymru |
| Nick Wood | (NW) | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru (Rhan o'r Cyfarfod) |

**Yn Arsylwi:**

| | | |
|---|---|---|
| Richard Davies | (RD) | Rheolwr Prosiectau a Gwella Gwasanaethau Rhwydwaith Arennau Cymru, CBC GIG Cymru |
| Richard Palmer | (RP) | Uwch Reolwr Cynllunio Arbenigol, CBC GIG Cymru |
| Kendal Smith | (KS) | Partner Cyllid – Cynllunio Ariannol, CBC GIG Cymru |
| Sandra Tallon | (ST) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, CBC GIG Cymru |
| Yasmin Fraser | (YF) | Aelod o'r Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Jason Killens | (JK) | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |
| Mandy Rayani | (MR) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru |
| Carol Shillabeer | (CS) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

**Cofnodion:**

| | | |
|---|---|---|
| Karla Williams | (KWi) | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro, CBC GIG Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| JCC24/108 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Ian Green (IG), yr aelodau, y mynychwyr, a'r arsylwyr, i gyfarfod cyhoeddus Cyd-bwyllgor Comisiynu (CBC) GIG Cymru, gan gyflwyno pobl a chan dynnu sylw at nifer yr arsylwyr, fel y nodwyd uchod. |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Croesawodd IG Jacob Barge (Jacob) a oedd yno i rannu ei stori fel claf.<br><br>Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio, a chadarnhawyd y byddai'r recordiad ar gael ar wefan y CBC yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. |
| JCC24/109 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb a'u rhestru fel yr uchod. |
| JCC24/110 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni wnaed datganiadau o fuddiant ychwanegol yn ymwneud â'r eitemau i'w trafod ar yr agenda. |
| JCC24/111 | **1.4 Stori Claf**<br>Cyflwynodd Carole Bell (CB) Jacob Burge, claf a ddaeth i'r cyfarfod i rannu ei brofiad o gael Pen-glin â Microbrosesydd (MPK) newydd ar ôl bod â choes brosthetig arferol. Rhannodd Jacob ei brofiad, a nododd yr aelodau:<br>• Bu rhaid iddo gael trychiad 5 mlynedd yn ôl,<br>• Cafodd MPK flwyddyn yn ôl, wedi'i ariannu drwy broses Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR),<br>• Roedd yr MPK wedi gwella ei symudedd yn sylweddol, fel ei allu i gerdded ar dir anwastad, mynd i fyny ac i lawr grisiau, a defnyddio beic llonydd,<br>• Roedd ei hyder ac ansawdd ei fywyd wedi cynyddu ers cael yr MPK,<br>• Roedd wedi cael budd raglen ffisiotherapi gynhwysfawr a chefnogaeth agos gan y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAC),<br>• Roedd ganddo ap ar ei ffôn symudol a oedd yn rheoli gweithrediadau a lefelau gwrthiant yr MPK; a<br>• Gallai pen-gliniau MPK o'r fath helpu i leihau cwympiadau a derbyniadau i'r ysbyty.<br><br>Holodd IG am hyd y broses gymeradwyo, a dywedodd Jacob ei bod yn ddi-dor, ar wahân i'r her o orfod colli pwysau. Dywedodd ei fod wedi cael asesiad mesur canlyniadau ar ddechrau'r broses ac un arall ar ôl chwe mis er mwyn monitro unrhyw welliant. Hefyd, cafodd chwe wythnos o driniaeth ffisiotherapi a fu'n hynod o werthfawr.<br><br>Holodd Susan Elsmore (SE) am y manteision iechyd meddwl ac emosiynol, a dywedodd Jacob ei fod wedi gweld gwelliant o ran ei gadernid, ei annibyniaeth, ei hyder, a'i bositifrwydd yn gyffredinol. |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Nododd yr Aelodau bwysigrwydd data ar gyfer llywio gwaith i gomisiynu technolegau prosthetig datblygedig yn y dyfodol.<br><br>Diolchodd Stacey Taylor (ST) i Jacob am rannu ei stori, a oedd yn enghraifft o welliannau amlwg yng nghanlyniadau cleifion, ac fe wnaeth ST bwysleisio MPK fel maes lle byddai cynlluniau comisiynu yn ehangu yn y dyfodol.<br><br>Gadawodd Jacob ar ôl ei gyflwyniad, gan gynnig ateb cwestiynau dilynol all-lein.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** stori'r claf. |
| JCC24/112 | **1.5 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2024 a Materion sy'n Codi**<br>**Cymeradwywyd** cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor (CBC) a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.<br><br>Dywedodd Nia Roberts (NR) ei bod ar y rhestr ddwywaith. Roedd hyn oherwydd iddi gymryd lle'r Cadeirydd yn dilyn ymadawiad IG yng nghyfarfod CBC Tachwedd 2024.<br><br>Ni chodwyd unrhyw faterion. |
| JCC24/113 | **1.6 Log Camau Gweithredu**<br>**Nododd** yr aelodau y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn y log gweithredu a **chytunwyd** fod y camau gweithredu a nodir fel rhai 'wedi'u cau' wedi'u cwblhau.<br><br>Rhoddodd Jacqueline Maunder (JM) ddiweddariad ynghylch y camau agored a oedd dal ar y gweill ac ynghylch y targed ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth hyd fis Mai 2025. |
| JCC24/114 | **2.1 Adroddiad y Cadeirydd**<br>Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, a nododd yr aelodau y cyfarfodydd allweddol a fynychwyd a'r diweddariadau fel a ganlyn:<br>• **Gweithred y Cadeirydd ar Derfynau Ariannol** – Fe wnaeth yr Aelodau ddilysu camau'r Cadeirydd i gymeradwyo diweddariad i'r terfyn dirprwyo ariannol ar gyfer Prif Gomisiynydd dros dro y CBC, Stacey Taylor, yn benodol mewn perthynas â Chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) hyd at £2m, Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) a Thaliadau eraill nad ydynt yn rhai contract hyd at £1m, a chostau rhedeg sefydliadol hyd at £100,000, |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **Gweithdy Strategaeth y Cyd-bwyllgor Comisiynu –** Ar 10 Rhagfyr 2024, bu aelodau'r CBC mewn gweithdy strategaeth ryngweithiol a oedd yn canolbwyntio ar gael barn aelodau ar gynllun Trawsnewid y CBC ac ar ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y CBC,<br>• **Recriwtio Prif Gomisiynydd newydd** - Yn dilyn ymarfer recriwtio cystadleuol, ni lwyddodd CBC benodi unrhyw un. Diolchodd y Cadeirydd i Stacey Taylor am barhau i ysgwyddo cyfrifoldebau'r Prif Gomisiynwyr dros dro; a<br>• **Cyfarfodydd allweddol a fynychwyd.**<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Chadarnhau**'r camau a gymerodd y Cadeirydd ar y cyd ag Aelod Swyddog (Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol) i gymeradwyo diweddariad i'r terfyn dirprwyo ariannol ar gyfer Prif Gomisiynydd dros dro'r CBC. |
| JCC24/115 | **2.2 Adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro**<br>Derbyniwyd adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro a nododd yr aelodau y diweddariadau canlynol:<br>• **Y wybodaeth ddiweddaraf am – Chwarter 3 - Cynllun Trawsnewid y CBC -** Roedd y gwaith wedi parhau'n gyflym yn ystod Chwarter 3 i weithredu'r camau i 'fusnes arferol' ar gyfer y CBC newydd a thîm CBC,<br>• **Cynllun Trawsnewid y CBC – Blaenoriaethau ar gyfer Chwarter 4** – Amlinellwyd y blaenoriaethau, gan cynnwys cyflawni Cynllun 2024/25, cwblhau a gweithredu'r strwythur sefydliadol newydd ar gyfer y CBC, a chwblhau'r broses o gwblhau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28. Mae darnau eraill o waith sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys Cyfeirlyfr Gwasanaethau a datblygu Fframwaith Comisiynu ar gyfer y CBC; a<br>• **Cylch Gorchwyl Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol (CCLG)** – Nodwyd y Cylch Gorchwyl terfynol ar gyfer y grŵp sydd newydd gael ei ffurfio i gefnogi'r Prif Gomisiynydd. Roedd y cyfarfod cyntaf i fod i gael ei gynnal ar 28 Ionawr 2025. Diolchodd ST i'r aelodau am eu henwebiadau ac fe wnaeth yr aelodau gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol newydd (CCLG). |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| JCC24/116 | **2.3 Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed**<br>Cafwyd adroddiad Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (MHLDVG).<br><br>Cyflwynodd Shane Mills (SM) yr adroddiad a nododd yr aelodau ddiweddariadau ynghylch:<br>• **Gwasanaethau Dan Glo Diogelwch Uchel**<br>Tynnwyd sylw at bryderon amgylcheddol ynghylch gwasanaethau dan glo diogelwch uchel Ysbyty Diogelwch Uchel Ashworth ac Ysbyty Diogelwch Uchel Rampton a sicrhawyd trwy drefniadau contractio ag NHS England. Roedd achos busnes ar gyfer adeilad newydd yn cael ei ddatblygu gan Merseycare NHS Foundation Trust (MNFT). Roedd Ysbyty Rampton dan drefniadau monitro uwch gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), a bydd y gwelliant yn cael ei fonitro gan gomisiynwyr y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol (NOG) chwarterol y mae CBC yn aelod ohono. Mae'r CBC yn parhau i weithio gyda NHS England fynd i'r afael â'r materion hyn ac i wella'r cyfleusterau.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau am ddata ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal, yn enwedig diogelwch canolig o'i gymharu â diogelwch isel a thueddiadau hanesyddol. Cytunodd SM i rannu hyn mewn Gweithdy Strategaeth CBC yn y dyfodol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Bydd data ar leoliadau iechyd meddwl y tu allan i'r ardal yn cael eu rhannu gyda'r Cydbwyllgor mewn sesiwn strategaeth CBC yn y dyfodol.<br><br>Nododd Abigail Harris (AH) yr angen brys i adnewyddu'r strategaeth ar gyfer cyfleusterau dan glo diogelwch canolig yng Nghymru, a chadarnhaodd fod Cynghorydd Bwrdd ar gyfer Iechyd Meddwl wedi'i benodi ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA). Dywedodd AH y byddai'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r cyfle hwn i adnewyddu'r cynllun strategol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Gofynnodd Suzanne Rankin (SR) am ddull integredig a oedd yn cynnwys llwybrau Iechyd Meddwl lleol er mwyn rheoli capasiti'n effeithiol.<br><br>Holodd Paul Worthington (PW) ynghylch yr amserlen ar gyfer derbyn y data, ac atebodd SM fod y gwaith ar gam datblygedig ac y byddai ar gael yn y dyfodol agos. |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **Straen Trawmatig Cymru (TSW) -** Dechreuodd adolygiad o wasanaeth Straen Trawmatig Cymru (TSW), a gynhaliwyd gan y CBC, ym mis Rhagfyr 2024,<br>• **Archwilio Mewnol Agweddau Ansawdd y Fframweithiau Cenedlaethol –** Cynhaliwyd asesiad archwilio mewnol ar Agweddau Ansawdd y Fframweithiau Cenedlaethol a gafodd sgôr asesu 'Sicrwydd Rhesymol'.<br><br>Awgrymodd Hayley Thomas (HT) y gellid dysgu o’r gwaith parhaus, yn enwedig ar lefel leol, yn dilyn yr archwiliad mewnol a gofynnodd i unrhyw ddysg gael ei rannu.<br><br>• **Tân yn Uned Dan Glo Diogelwch Isel Taith Newydd, Ysbyty Glanrhyd** – Yn sgil tân diweddar mewn uned dan glo diogelwch isel bu rhaid trosglwyddo cleifion i amgylchedd diogelwch canolig. Roedd y CBC yn gweithio'n agos gyda'r darparwr i sicrhau'r amhariad lleiaf posibl. Canmolodd SM ac AH ymateb staff i'r sefyllfa heriol hon. Yn y tymor hir, tynnodd sylw at yr angen i foderneiddio’r ystâd ar draws unedau dan glo diogelwch canolig.<br><br>Holodd Shameem Nawaz (SN) am effaith hyn ar y cleifion. Cadarnhaodd SM nad oedd amgylcheddau unedau dan glo diogelwch isel a chanolig yn wahanol iawn i’w gilydd, ond dywedodd y byddai'n parhau i weithio'n agos gyda darparwr y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael eu trin yn briodol.<br><br>Holodd HT sut y byddai grŵp comisiynu Iechyd Meddwl SM yn cysylltu'n ôl â’r Byrddau Iechyd, a gofynnodd am ei farn ynghylch a oedd hyn yn gweithio'n dda ynteu a oedd mwy o gefnogaeth ar y cynllun gwaith. Dywedodd SM bod lefelau ymgysylltu yn dda gyda’r Byrddau Iechyd, a'u bod yn dechrau edrych ar yr anghenion lleol a'r amrywiad rhwng defnydd lleol o wasanaethau arbenigol er mwyn gweld beth allai CBC ei ddysgu. Mae SM wedi dechrau gwaith mewnol i fynd at wraidd y mater, ond roedd y gwaith yn gymhleth, yn amlochrog, a chyda niferoedd cymharol fach. Dywedodd SM wrth yr aelodau eu bod yn cydweithio â'r rhaglen iechyd meddwl strategol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y llwybr yn cael ei ystyried.<br><br>Holodd Shaun Ayres (SA) am y rhwystrau sy’n atal darpariaeth gwasanaethau lleol. Gofynnodd SA a fu’r oedi oherwydd diffyg gwasanaethau lleol, gan nodi na fyddai cywiro pen draw’r llwybr yn datrys problemau mewn rhannau eraill.<br><br>Atebodd SM fod y rhan fwyaf o’r Byrddau Iechyd wedi cynnal adolygiadau lleol ond bod heriau sylweddol mewn perthynas â |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | moderneiddio'r cyfleusterau a'r ystadau. Soniodd SM am heriau recriwtio hefyd.<br><br>Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen dealltwriaeth gynhwysfawr o'r holl wasanaethau, nid dim ond y rhai a gomisiynir gan y CBC, er mwyn llywio'r dull gweithredu cyffredinol a'r strategaeth ar gyfer iechyd meddwl.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC24/117 | **2.4 Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans a 111**<br>Derbyniwyd yr adroddiad Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans a 111.<br><br>Tynnodd Ross Whitehead (RW) sylw at:<br>• **Perygl –** Fe wnaeth RW atgoffa'r aelodau bod trafodaethau manwl ar berfformiad a chapasiti ambiwlans yng ngweithdy strategaeth CBC Rhagfyr 2024, a bod cynlluniau gwella a mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu,<br>• **Adolygiad o'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) – Adolygiad Barnwrol –** Roedd disgwyl i'r Adolygiad Barnwrol gael ei gynnal rhwng 22 a 23 Ionawr 2025. Byddai rhagor o ddiweddariadau yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol,<br>• **Argymhelliad 4 – Model 'Ar Y Ffordd' Wedi'i Deilwra –** Cymeradwyodd y CBC Gynlluniau Comisiynu ym mis Tachwedd 2024, gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyflwyno opsiynau. Roedd angen mwy o graffu er mwyn sicrhau cysondeb â pherfformiad y system. Trafodwyd hyn yn y Grŵp Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans a 111 ar 9 Ionawr 2025. Oherwydd goblygiadau ariannol a gweithredol, ac oherwydd gwahaniaethau perfformiad ledled Cymru, roedd angen am drafodaethau pellach, a bydd y rhain yn parhau drwy'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol,<br>• **Asesiad Ymchwiliad Manchester Arena –** Mae Tîm CBC yn sefydlu proses, mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr a enwebwyd gan y bwrdd iechyd, ar gyfer adolygu'r asesiad a ddarparwyd gan y gwasanaeth ambiwlans<br>• **Adolygiad Mesurau'r Gwasanaeth Ambiwlans –** Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar fetrigau perfformiad diwygiedig ac roedd disgwyl i argymhellion gael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol agos, |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **Gweledigaeth y Dyfodol y Gwasanaethau Cludiant Di-frys i Gleifion (NEPTS) –** Datblygwyd gweledigaeth hirdymor ddrafft ar gyfer y gwasanaethau cludiant di-frys i gleifion. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y CBC ar 18 Mawrth 2025; a<br>• **Ail-fandio Technegydd Meddygol Brys (EMT) -** Aeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn eu blaenau gyda'r gwaith i ail-fandio swyddi Technegwyr Meddygol Brys oherwydd y risg o anghydfod diwydiannol, er na lwyddodd y CBC wneud penderfyniad ar y cynnig yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024. Bydd y costau yn ystod y flwyddyn yn cael eu talu gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2024/25, a cafwyd eglurhad y byddai hyn yn parhau i fod yn fater darparwr yn 2025/26. Bydd angen newid y gymysgedd o sgiliau er mwyn lliniaru effeithiau ariannol yn y dyfodol.<br><br>Mynegodd PW bryder bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bwrw ymlaen heb benderfyniad gan y CBC yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2024, a gofynnodd a allai hyn arwain at risg ariannol gan nad oedd y Cydbwyllgor wedi ei gymeradwyo a holodd am y costau posibl. Dywedodd RW y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>Dywedodd IG nad oedd unrhyw bryderon ar hyn o bryd o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, a hynny oherwydd sicrwydd a roddwyd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y gellid ei reoli yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni chymeradwyodd y CBC yr achos busnes oherwydd y goblygiadau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3. Nawr ei fod wedi'i weithredu, bydd goblygiadau i flynyddoedd 2 a 3 nad oeddent yn rhan o'r cynlluniau comisiynu presennol.<br><br>Dywedodd ST y bydd y mater yn cael sylw yn ystod trafodaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a dylai'r CBC ei ystyried ar gyfer proses Cynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn nesaf. Nid oedd holl ddiwydrwydd dyladwy yr achos busnes wedi'i wneud eto, felly nid oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun ariannol, gan beri risg i'r darparwr ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cafwyd eglurhad bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn fater i'r comisiynydd a'r darparwyr.<br><br>Gofynnodd IG a oedd y CBC wedi mynegi unrhyw bryderon i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dilyn eu penderfyniad, a dywedodd RW y bu trafodaeth am y tensiynau rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel gwasanaeth comisiwn ac fel sefydliad statudol, a chydnabuwyd yr |

CADARNHAWYD

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | angen am eglurder ar y broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd IG nad oedd y pwyllgor yn bwriadu cyfyngu gallu'r darparwr i wneud penderfyniadau, ond mynnodd y dylai unrhyw benderfyniadau gyda risgiau ariannol sy'n ymwneud â'r CBC gynnwys y CBC yn y trafodaethau.<br><br>Eglurodd Rachel Marsh (RM) safbwynt Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a bod y proffil cenedlaethol newydd wedi gwneud ail-fandio'n angenrheidiol. Roedd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi ysgwyddo'r gost a'r risg ar gyfer eleni, a bydd yn edrych ar newidiad y gymysgedd o sgiliau i liniaru'r effeithiau ariannol yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd ST y byddai'r CBC yn trefnu trafodaeth rhwng ei Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i drafod y materion hyn.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Cyfarwyddwyr y CBC ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gwrdd i drafod cydweithio, cyfrifoldebau comisiynu / perthnasoedd, a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.<br><br>Pwysleisiodd ST, dros y deuddeg mis nesaf, bod ar y CBC angen am strategaeth i'w helpu i daro targedau'r gweinidogion ac i wella dangosyddion perfformiad cyfredol.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad, |
| JCC24/118 | **2.5 Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol**<br>Cafwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol a rhoddodd Melanie Wilkey (MW) drosolwg o'r gwasanaethau allweddol ac o'r meysydd risg:<br>• **Amseroedd aros am Lawfeddygaeth Blastig yn Ne Cymru** – Ar hyn o bryd, roedd amseroedd aros cleifion llawfeddygaeth blastig yn hirach na'r targed presennol o beidio â chael cleifion yn aros yn hirach na 104 wythnos erbyn Mawrth 2025. Roedd cadarnhad o ganlyniad cyflwyniad BIPBA am gyllid gofal wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r targed hwn yn dal i fod heb ei dderbyn. Os na chaiff cais y Bwrdd Iechyd am gyllid ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ei gadarnhau, ni fydd digon o gyllid i'w galluogi i gyrraedd dangosydd perfformiad allweddol 104 wythnos ar gyfer llawfeddygaeth blastig,<br>• **Clinigau allgymorth Llawfeddygaeth Blastig yng Ngogledd Cymru** – Roedd bwlch capasiti yn y clinigau |

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | allgymorth a reolir gan BIPBC ac a ddarperir gan wasanaeth llawfeddygaeth blastig Ymddiriedolaeth Merswy a Gorllewin Swydd Gaerhirfryn (MWLT), gan arwain at amseroedd aros hir, yn enwedig i gleifion sydd ag angen am apwyntiadau prydlon yn dilyn triniaeth ar gyfer tiwmorau'r croen. Roedd MWLT wedi nodi angen posibl am fodel cyllido amgen i fodloni gofynion y gwasanaeth allgymorth. Mae'r mater hwn wedi cael ei uwchgyfeirio,<br>• **Amseroedd Aros Llawdriniaethau Gordewdra Ysbyty Brenhinol Salford** – Roedd pryderon perfformiad parhaus wedi arwain at y gwasanaeth yn cael ei roi dan y fframwaith sicrwydd comisiynu gan Uwch Dîm Arwain CBC ar 8 Ionawr 2025,<br>• **Gwasanaethau Newyddenedigol** – Mewn cyfarfodydd cynhyrchiol gyda BIP Caerdydd a'r Fro gwelwyd gwelliannau i'r gweithlu mewn unedau babanod newydd-anedig. Mae'r camau nesaf yn cynnwys Cam 2 o ailfodelu cotiau babanod newydd-anedig. Mae hyn yn gofyn am gymorth rheoli rhaglenni; a<br>• Cydnabuwyd **risgiau comisiynu eraill** yr adroddiad. Gofynnwyd am Strategaeth Gwasanaethau Arbenigol mwy cynhwysfawr gan fod pob risg yn sylweddol ond ni ellid mynd i'r afael â hwy ar wahân.<br><br>Gofynnodd Angela Mutlow (AM) am ragor o fanylion am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cotiau i fabanod newydd-anedig. Rhoddodd MW wybodaeth gefndirol, gan gadarnhau heriau o ran staffio, gweithlu, ac adnoddau, gan arwain at rai sifftiau ddim yn cael eu staffio'n llawn. Fodd bynnag, roedd nifer y gwrthodiadau wedi gostwng.<br><br>Pwysleisiodd AH yr angen i fynd i'r afael â phroblemau capasiti mewn unedau babanod newydd-anedig, fel diffyg cotiau, a nododd fod y rhwydwaith yn hanfodol yn yr ymdrech hon.<br><br>Galwodd SR am Strategaeth Gwasanaethau Arbenigol cynhwysfawr, gan nodi bod pob risg yn sylweddol ac yn rhyng-gysylltiedig. Nid oedd gan y system babanod newydd-anedig ddigon o gapasiti, gyda phroblemau ariannol, staffio, neu le, a’r tri gyda’i gilydd ar brydiau.<br><br>Cytunodd MW fod angen am Strategaeth Gwasanaethau Arbenigol. Mae gwybodaeth ddiweddar a dderbyniwyd gan BIP Caerdydd a’r Fro wedi bod yn galonogol, ond roedd angen dull strategol ehangach hefyd.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu: |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **Nodi'**r diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, a<br>• **Nodi'**r crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd, gan gofio bod y rhain yn cael eu rheoli trwy gyfrwng y gofrestr risg sefydliadol a bod risgiau a gwasanaethau sy'n cael eu huwchgyfeirio yn cael eu hadrodd i Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau y CBC ar gyfer craffu manwl. |
| JCC24/119 | **3.1 Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Cydbwyllgor Comisiynu 2025-2028**<br>Cafodd yr aelodau gyflwyniad a oedd yn rhoi crynodeb o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig a oedd yn cynnwys y diweddariadau canlynol:<br>• Cyhoeddwyd Canllawiau Fframwaith Cynllunio Llywodraeth Cymru ac roedd y llythyr dyrannu ariannol yn nodi cynnydd o 1.77% yn y dyraniad i'w drosglwyddo i ddarparwyr gan gomisiynwyr. Targed isafswm arbedion effeithlonrwydd o 2%,<br>• Blaenoriaethau Comisiynu sy'n Dod i'r Amlwg:<br>- Ambiwlans/111<br>- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>- Gwasanaethau Arbenigol<br>• Sefyllfa ariannol sy'n dod i'r amlwg – Nodwyd blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng a gofal adfer wedi'i gynllunio. Pwysleisiwyd yr angen i gydweithio ac i flaenoriaethu adnoddau, a byddai proses flaenoriaethu ar sail risg yn cael ei chynnal. O'r 70 o gynigion a dderbyniwyd, roedd 17 wedi'u nodi fel rhai blaenoriaeth uchel. Trafodwyd y sefyllfa ariannol mewn manylder. Roedd amcangyfrifon cynnar yn awgrymu angen i dyfu o 5.5%. Tynnwyd sylw at y gyrwyr cost sylweddol, megis pwysau chwyddiant, mwy o alw, a chymeradwyaethau technoleg Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Mae gorwariant parhaus a gofynion newydd yn awgrymu diffyg, a allai wthio cyfanswm yr angen i 6.4% pe bai blaenoriaethau newydd yn cael eu hariannu.<br><br>Dywedodd SR y byddai'n fuddiol nodi'n union beth yw'r bwriad a'r canlyniadau cynlluniedig er mwyn cefnogi'r rhesymeg, a nododd fod y system gyfan yn wynebu heriau cynaliadwyedd. Holodd pa mor bosibl oedd arbedion o 2%, a dywedodd y byddai angen dull strategol dros nifer o flynyddoedd.<br><br>Argymhellodd SA y defnydd o ddull strwythuredig, a hynny trwy sefydlogi gwasanaethau/risgiau cyfredol, nodi pa ehangiadau sy'n hanfodol a pha rai sy'n ddewisol, a chan ystyried y gweithlu, ystadau a dichonoldeb costau. |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Argymhellodd NP a PW y dylid cael dadansoddiad manylach ac anogodd y CBC i gynhyrchu 2–3 model senario ar gyfer sesiwn datblygu mis Chwefror. Roeddent yn pwysleisio'r angen am eglurder wrth rannu risg ariannol rhwng Byrddau Iechyd, ynghyd â thryloywder, fframwaith penderfyniadau penodol, a llinell amser gadarn i gwblhau cynllun fforddiadwy.<br><br>Dywedodd AH y byddai Byrddau Iechyd yn gorfod dechrau o wahanol safleoedd, ac awgrymodd gynllunio senario penodol gyda dadansoddiad risg tryloyw a llinellau amser realistig. Cadarnhaodd IG fod angen i aelodau ystyried a gwneud penderfyniadau anodd gydag amserlenni allweddol o ran pryd i wneud y penderfyniadau hyn.<br><br>Gofynnodd NR pryd y byddai'r penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud. Atebodd ST y byddai'r gweithdy strategaeth ym mis Chwefror yn allweddol, gyda'r dyddiad cau terfynol ym mis Mawrth 2025.<br><br>Gofynnodd IG am rywfaint o waith cynllunio senarios penodol, ac awgrymodd 2–3 senario ar gyfer trafodaeth bellach mewn gweithdy strategaeth CBC yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r trafodaethau parhaus ar flaenoriaethu.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Tîm CBC i gynhyrchu cynlluniau sy'n seiliedig ar senarios ar gyfer Gweithdy Strategaeth CBC ym mis Chwefror: gan gynnwys y gorau a'r gwaethaf, goblygiadau ehangu gwasanaethau newydd, a mesurau lliniaru ymarferol.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig terfynol gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2025, gyda chyfarfod eithriadol posibl ar 18 Chwefror 2025 i gael trafodaeth fanwl ynghylch blaenoriaethu.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'**r cyflwyniad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a<br>• **Chytuno** bod angen gwneud rhagor o waith ar gynllunio senarios. |
| JCC24/120 | **3.2 Comisiynu Gwasanaeth Tra Arbenigol ar gyfer Afiechydau Prin Iawn**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad ar Gomisiynu Gwasanaethau Tra Arbenigol ar gyfer Afiechydau Prin Iawn. Dywedodd yr Athro Iolo Doull (ID) fod y gwasanaethau costus, cyfaint isel hyn yn arfer cael eu rheoli drwy'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) neu ddulliau ad hoc. Byddai model comisiynu ffurfiol gan CBC yn sicrhau tegwch |

CADARNHAWYD

<table>
<tr><th>Cyf y Cofnod</th><th>Eitem Agenda</th></tr>
<tr><td></td><td>
ac yn gwella’r gallu i gasglu data. Er gwaethaf y risg ariannol, pwysleisiodd ID yr angen am ddulliau clinigol cyson.
Soniodd ST fod cyn-Grŵp Rheoli Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) wedi cytuno y dylai'r CBC newydd drafod y cynnig hwn.
Holodd IG am y goblygiadau ariannol a dywedodd ID bod goblygiadau ariannol yn anochel oherwydd costau moddion.
Holodd NR a oedd hyn yn wahanol i'r llwybr Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol, a dywedodd ID fod y rhan fwyaf o'r gofal yn ymwneud â moddion, a byddai hynny’n cael ei drin gan glinig ar gost isel. Fodd bynnag, proseswyd y ceisiadau trwy'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol oherwydd y costau moddion uchel.
Daeth IG i gasgliad trwy ddweud mai’r CBC ddylai gael y cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer gwasanaethau afiechydon prin iawn, gydag ymgysylltiad pellach ar lefelau Bwrdd Iechyd i egluro unrhyw oblygiadau ariannol posibl.
Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:
<ul>
<li>Nodi’r adroddiad,</li>
<li>Nodi bod nifer o foddion newydd ar gyfer afiechydon prin iawn ar lwybr arfarnu Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, ond nad oedd cynllunio clinigol nac ariannol ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd, a</li>
<li>Chymeradwyo argymhelliad mai’r Cyd-bwyllgor Comisiynu yw'r opsiwn dewisol ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau tra arbenigol i Gymru.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>JCC24/121</td><td>
3.3 Gofal Iechyd Parhaus (CHC)
Cafwyd adroddiad a oedd yn gofyn i aelodau’r CBC gymeradwyo sefydlu Rhaglen Gydweithredu Gofal Iechyd Parhaus (CHC) GIG Cymru. Tynnodd SM sylw at:
<ul>
<li>Bod Gofal Iechyd Parhaus yn dal i brofi costau cynyddol ac amrywiaeth mewn prosesau ar draws y Byrddau Iechyd,</li>
<li>Byddai cyfrwng ar y cyd yn gwella ansawdd, cost-effeithiolrwydd, ac yn safoni comisiynu; a</li>
<li>Roedd ar wyth ffrwd waith angen llywodraethu ffurfiol o dan y CBC, gyda’r Byrddau Iechyd lleol yn cadw’r atebolrwydd terfynol.</li>
</ul>
Nododd HT fod angen am fframwaith gwneud penderfyniadau ar yr ymdrechion cynaliadwyedd sy’n cael eu gwneud.
</td></tr>
</table>

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Gofynnodd NR am y budd posibl a'r gostyngiad mewn costau, a soniodd SM am y buddion o ran cydreoli'r farchnad, cysondeb wrth gymhwyso’r trothwy, a rhannu arbenigedd.<br><br>Roedd AH yn gefnogol o gael cynllun gwella wedi’i ddiffinio’n eglur, un a fyddai’n sicrhau bod opsiynau camu i lawr ar gael yn lleol, rhag i ormod gael eu rhoi ar y rhaglen Gofal Iechyd Parhaus. Holodd SN am lif y cleifion o leoliadau acíwt ac unrhyw wersi a ddysgwyd o arferion gorau lleol a chenedlaethol, a phwysleisiodd SR bwysigrwydd llywodraethu cadarn i sicrhau buddion.<br><br>Ceisiodd PW eglurder ar fesur canlyniadau cleifion a llif y system. Holodd SA sut y byddai hyn yn gwella canlyniadau a'i effaith ar gleifion a'r system ehangach.<br><br>Dywedodd IG y byddai angen eglurder ynghylch atebolrwydd ariannol a goblygiadau adnoddau.<br><br>Argymhellodd ST i aelodau fod yn ymwybodol o'r mater ac i ailedrych arno ym mis Mawrth 2025. Byddai hyn yn sicrhau bod y CBC yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac yn eu hymgorffori mewn trefniadau llywodraethu.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Adroddiad wedi'i ddiweddaru i'w gyflwyno yng nghyfarfod CBC Mawrth 2025.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi’r** adroddiad; a<br>• **Chymeradwyo** sefydlu Rhaglen Cydweithrediad Gofal Iechyd Parhaus GIG Cymru, yn amodol ar gael adnoddau priodol. |
| JCC24/122 | **4.1 Adroddiad Perfformiad Ariannol – Mis 9**<br>Cafwyd adroddiad perfformiad ariannol a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol mis 9 y CBC ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-2025. Cafwyd adroddiad ar y sefyllfa ariannol yn erbyn gwaelodlinau 2024–2025 yn dilyn cymeradwyo Cynllun Comisiynu Integredig yr hen PGIAC a Chynllun Tymor Canolig Integredig blaenorol Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) gan Gyd-bwyllgorau priodol y 7 Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024.<br><br>Y sefyllfa ariannol a adroddwyd ar gyfer y CBC ym Mis 9 2024–2025 oedd gorwariant o £4.8 miliwn yn erbyn cynllun ariannol y Cynllun Comisiynu Integredig, gyda rhagolwg gorwariant diwedd blwyddyn o £5.8 miliwn, gyda risg bellach mewn perthynas â TAVI yn benodol. |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Nododd yr Aelodau y trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch dyraniadau ychwanegol posibl, y dyfarniad cyflog a basiwyd yn Lloegr, a bod symudiad trawsffiniol yn parhau i fod yn fater allweddol.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** sefyllfa ariannol diwedd mis. |
| JCC24/123 | **4.2 Adroddiad Perfformiad – Rhagfyr 2024**<br>Cafwyd adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg integredig o berfformiad gwasanaethau a gomisiynwyd gan y CBC hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024. Dywedodd IG fod y pynciau perfformiad allweddol yn yr adroddiad yn cael sylw yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr.<br><br>Mae'r dull etifeddol cyfun o adrodd ar berfformiad (fformatau PGIAC/PGAB) yn parhau i fod yn drosiannol, ac roedd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i'r CBC yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025/2026.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi**'r gwaith parhaus i alinio dangosyddion a metrigau i greu adroddiad perfformiad integredig ar gyfer y CBC; a<br>• **Nodi**'r gwaith craffu a'r sicrwydd sydd i'w derbyn mewn perthynas â pherfformiad, a hynny trwy Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid CBC unwaith y caiff ei sefydlu ym mis Chwefror 2025. |
| JCC24/124 | **5.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**<br>Cafwyd adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nododd yr aelodau y diweddariadau.<br><br>Holodd PW ynghylch llinell amser yr Adroddiad Blynyddol a dywedodd JM fod yr amserlenni adrodd yn cyd-fynd ag amserlen a dyddiadau cau BIPCTM.<br><br>Nododd yr Aelodau y bydd yr argymhellion LlC etifeddol sy'n weddill yn ymwneud ag adroddiad "Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor PGIAC" Archwilio Cymru. Cafodd Pwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM ar gyfer cyrff lletyol gadarnhad gan Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2024 bod yr argymhellion Llywodraeth Cymru a oedd yn weddill bellach wedi'u categoreiddio fel rhai sydd wedi'u cwblhau.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Cymeradwyo**'r enwebiadau arfaethedig y Prif Weithredwr a'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer is-bwyllgor |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Cynllunio, Perfformiad a Chyllid y Cyd-bwyllgor a'r is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau,<br>• **Nodi** y bydd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad, a Chyllid y Cyd-bwyllgor a'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r 7 x Bwrdd Iechyd i gael eu cymeradwyo; a<br>• **Nodi** bod Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod yr holl argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad etifeddol Archwilio Cymru "Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor PGIAC" yn cael eu categoreiddio fel rhai sydd wedi'u cwblhau. |
| JCC24/125 | **5.2 Adroddiadau cryno gan yr Is-bwyllgorau ar y Cyd**<br>Derbyniwyd adroddiadau cryno gan y Cyd-is-bwyllgorau canlynol:<br>• Adroddiad Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC)<br>• Dogfennau Briffio'r Grŵp Rheoli<br>• Panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol<br>• Rhwydwaith Arennau Cymru<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiadau cryno. |
| JCC24/126 | **5.3 Cofrestr Risg y Cydbwyllgor Comisiynu**<br>Derbyniwyd adroddiad cofrestr risg y CBC. Nododd yr Aelodau fod y gofrestr risg gyfun wedi'i chategoreiddio fel cofrestr risg drosiannol tra bod gwaith pellach yn cael ei wneud i fireinio'r risgiau ac alinio â'r strwythur newydd.<br><br>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Cymeradwyo** cofrestr risg a chamau lliniaru'r CBC ar 30 Tachwedd 2024,<br>• **Nodi**'r gwaith adolygu a wnaed gan Gyfarwyddiaeth Gomisiynu Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed; a<br>• **Nodi** datblygiad parhaus datganiad derbynioldeb risg ar gyfer y CBC a fydd yn cael ei gyflwyno i'r CBC yn ei sesiwn strategaeth ar 18 Chwefror 2025. |
| JCC24/127 | **6.1 Unrhyw Fater Arall**<br>Nid oedd unrhyw faterion busnes eraill i'w trafod. |
| JCC24/128 | **6.2 Adolygiad o'r Cyfarfod**<br>Gofynnodd IG i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar y cyfarfod.<br><br>Teimlai'r aelodau fod pynciau yn ymwneud â risg, strategaeth, a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael sylw priodol, ond |

CADARNHAWYD

| Cyf y Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | nodwyd bod swmp y deunydd yn galw am drafodaeth gadarn. Ailadroddodd NR fod y cyfarfod yn cynnwys nifer o eitemau risg sylweddol o fewn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr. |
| JCC24/129 | **6.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Nododd y CBC fod y cyfarfod arferol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mawrth 2025.<br><br>Byddai Cyfarfod Eithriadol o'r CBC a Gweithdy Strategaeth yn digwydd ar 18 Chwefror 2025 i ganolbwyntio ar gynllunio senarios Strategaeth Tymor Canolig Integredig. |
| JCC24/130 | **6.4 Penderfyniad Mewn Pwyllgor**<br>Argymhellodd y Cydbwyllgor Comisiynu wneud y penderfyniad canlynol: "Dylid eithrio cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd am weddill y cyfarfod o ystyried natur gyfrinachol yr hyn a drafodir, lle byddai rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn a drafodir yn niweidiol i fudd y cyhoedd" (Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)". |

Daeth y cyfarfod i ben am 12.53.

**Llofnod y Cadeirydd: ..................................**

**Dyddiad:..................................................................................**

CADARNHAWYD